

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Nos Lun, Medi 24: Cyfarfod cyntaf tymor newydd Cymdeithas Undebol Deiniolen yn Nhŷ Elidir am 7.00 o'r gloch.

Cynhelir

Bore Coffi Macmillan

yn Capel Coch

ddydd Gwener

Medi 28

rhwng 10.30 a 2.00
o'r gloch

Croeso cynnes

Er budd

Cefnogaeth Cancr Macmillan

Y mis nesaf - Deiniolen

Medi 30

5.00p.m. – Mr Thomas Alun Williams,
Caernarfon

Hydref 7

3.30 p.m. – Y Gweinidog

Hydref 14

5.00 p.m. -

Dydd Sul, Medi 30: Gwasanaethir yn yr oedfa am 5.00 o'r gloch gan Mr Thomas Alun Williams, Caernarfon.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Wener, Medi 28: CIC am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Medi 30: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan Mr Dewi Jones, Pwllheli. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

CARMEL

Nos Wener, Medi 28: Dwylo Prysor am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Medi 30: Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg John Lewis Jones.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Medi 30: Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Elwyn Jones, Talwrn.

REHOBOTH

Dydd Sul, Medi 30: Ni chynhelir oedfa.

Y mis nesaf - Llanberis

Medi 30

10.00 a.m. - Mr Dewi Jones,
Pwllheli

11.15 a.m. – Ysgol Sul

Hydref 7

10.00 a.m. – Y Parchg Cath Williams

11.15 a.m. – Ysgol Sul

5.00 p.m. – Parti Bytholwyrdd

Hydref 14

10.00 a.m. - Diolchgarwch y Plant

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Gofalaeth Fro'r
Llechen Las

Gronyn

Rhif 767
23 Medi, 2018

Trump a'r ~~CBC~~ CBP



Ddylwn i ddim chwerthin. Dwi'n gwybod hynny'n iawn. Ond weithiau, mae'n anodd peidio. Efo'r dyn o'r Tŷ Gwyn, mae dau beth yn bosibl, chwerthin neu grio. Mae geiriau a gweithredoedd Mr Trump yn achosi mwy na digon o grio i ormod o bobl, am bob math o resymau. Ond ddydd lau, chwerthin oedd pia hi.

Roedd Mr Trump wedi trefnu sbloets yn y Tŷ Gwyn i anrhydeddu staff dau sefydliad agos iawn at ei galon dyner, *Immigration and Customs Enforcement* a *Customs and Border Protection* (neu *ICE* a *CBP*). Iddo fo, mae unrhyw un sydd ag unrhyw beth i'w wneud â chadw dieithriaid a mewnfudwyr o'i wlad yn 'arwyr', a doedd o ddim yn brin o ddweud hynny hyd syrffed. Un rheswm amlwg dros y dathliad oedd bod rhai wedi beirniadu *ICE* am y ffordd fyrbwyll a chreulon y mae'n chwilio am bobl i'w halltudio o'r wlad. Yn wyneb y fath feirniadaeth, roedd yr Arlywydd am bwysleisio nad oedd ganddo fo ddim ond cariad a pharch at y bobl dda hyn. Crio, nid chwerthin ddylwn ei wneud wrth wrando arno. Felly hefyd pan wahoddwyd un o weithwyr *CBP* i'r llwyfan i'w ganmol am ddod o hyd i 78 o fewnfudwyr mewn lori. Un o dras Hispanaidd yw Adrian Anzaldúa, ac felly teimlai Mr Trump reidrwydd i egluro fod ganddo er hynny 'Saesneg perffaith'. Dylai Mr Anzaldúa ddiolch am ei swydd: pe na fyddai'n gweithio i'r *CBP* mae'n bosibl y byddai Trump am ei anfon yntau o'r wlad.

Ond er gwaethaf hyn, chwerthin wnes i wrth glywed yr Arlywydd yn cyfeirio at y *CBC* yn hytrach na'r *CBP*. Nid unwaith na dwywaith, ond hyd at ddeg o weithiau, heb ddweud yr enw cywir o gwbl. Nid mod i'n ddigydyndeimlad ag o, cofiwch, gan fy mod innau'n aml yn cael trafferth i gofio enwau. Ond bobol bach, dyma un o sefydliadau ei wlad sydd agosaf at galon Trump, ac roedd o'n ei gam enwi bob gafaell! Roedd y peth yn ffars llwyr.

Mae cariad a pharch yn greiddiol i Gristnogaeth. Mae Duw, a'n carodd ni ddigon i roi ei Fab i farw trosom, yn ein parchu ddigon i ymateb mewn iddo mewn ffydd. Nid yw'n ein gorfodi i gredu yn ei Fab, ond yn gadael i ni benderfynu a ydym am wneud hynny. Mae'r parch hwnnw'n rhan o'i gariad atom. Mae gweithredu cariad Duw'n golygu ein bod ninnau'n dangos parch at bobl. Ac ni allwn honni caru neb os ydym yn ei amharchu mewn unrhyw ffordd. Sut allwn ddweud ein bod yn caru os nad ydym yn gwneud dim i ddiwallu anghenion pobl. Sut allwn honni caru pobl os nad oes gennym ddigon o barch atynt i'w hannog i droi at Dduw, ffynhonnell gwir fywyd? Heb barch, heb gariad. Wedi sicrhau gweithwyr "*CBC*" o'i gariad atynt, fu Trump fawr o dro cyn iddo amharchu un o'i weithwyr. Wrth ddweud fod Mr Anzaldúa'n medru siarad Saesneg, roedd yn awgrymu na ddisgwyliai iddo, ar sail ei dras, wneud hynny. Nid yw amarch a chariad yn gymdeithion cysurus.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Cynhelir Oedfa Deulu yn Capel Coch am 10.30 o'r gloch dan arweiniad Susan Williams a'r Gweinidog.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Cledwyn Williams, Bangor.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Nid oes oedfa yn Nant Peris heddiw.

Cofion

Gweddiwn dros ein gilydd eto heddiw. "Arglwydd Dduw, diolch am allu credu, beth bynnag ein hamgylchiadau, fod dy ofal di amdanom yn gadarn. Nertha ni bob dydd i bwysu arnat ac i ymddiried yn dy ddaioni a'th gariad tuag atom. Arwain ni bob dydd er dy glod."

Balm o Salm



BYW Y BEIBL

'Canaf am ffyddlondeb a chyfiawnder; i ti, ARGLWYDD, y pynciaf gerdd.

Rhof sylw i'r ffordd berffaith; pa bryd y deui ataf? Rhodiaf â chalon gywir ymysg fy nhylwyth; ni osodaf fy llygaid ar ddim annheilwng.

Cas gennyf yr un sy'n twyllo; nid oes a wnelwyf ddim ag ef. Bydd y gwyrgam o galon yn troi oddi wrthyf, ac ni fyddaf yn cymdeithasu â'r drwg' (Salm 101:1-4).

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Miss Jennie Wheldon Jones, Cartref Cerrig yr Afon, Y Felin-heli yn y brofedigaeth o golli ei chwaer, Mrs Nancy Davies yn ddiweddar.

Derbyn aelodau

Yn ystod yr oedfa yng Nghapel Carmel Llanllechid nos Sul diwethaf, Medi 16, derbyniwyd chwech o aelodau newydd i'r eglwys yno. Cyflwynwyd copi o'r Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig i'r chwech i gofio'r achlysur. Y chwech oedd: Llinos Roberts, Ffion Roberts, Martha Glain Evans, Hannah Morgan, Meilir Price Griffith, a Beca Nia. Cyn iddi gael ei derbyn cafodd Beca hefyd ei bedyddio. Roedd yr oedfa yng ngofal y Gweinidog. Dymunwn bob bendith i'r chwech ohonynt ac edrychwn ymlaen at gael eu cwmni a'u cyfraniad i fywyd yr eglwys yng Nghapel Carmel.

Medal Gee

Llongyfarchiadau mawr i Mrs Helen Williams, Carmel, Llanllechid a fydd yn derbyn Medal Gee am ei ffyddlondeb i'r Ysgol Sul mewn cyfarfod yng Nghapel Seilo, Llandudno am 2.00 o'r gloch ddydd Sadwrn, Medi 29. Mae hyn yn achos llawenydd i bawb yng Ngharmel.

Cynllun Efe

Cynhelir Oedfa Gomisiynu ein gweithiwr newydd, Susan Williams, yng Nghanol-fan y Capel, Caethro am 7.00 o'r gloch nos Iau, Hydref 18. Edrychwn ymlaen at gael croesawu Susan yn ffurfiol i'w swydd gyda Chynllun Efe, Caersalem Caernarfon a Scripture Union Cymru. Y cyfarfod hwn fydd Cyfarfod Blynnyddol Cynllun Efe am eleni hefyd.

Cymdeithas Undebol

Wedi saib byr, mae'n dda dweud fod Cymdeithas Undebol Deiniolen yn ail ddechrau. Bydd y cyfarfod cyntaf yn Nhŷ Elidir am 7.00 o'r gloch nos yfory, nos Lun, Medi 24. Croeso i aelodau hen a newydd i'r cyfarfodydd. Diolch yn fawr iawn i Glyn Gruffudd am drefnu rhaglen ar gyfer y tymor newydd. Gobeithio bydd modd i gymaint â phosibl ddod i'r cyfarfodydd eleni.

Bore Hwyl

Cynhelir Bore Hwyl i blant bach hyd at 7 oed yn Capel Coch fore Sadwrn, Hydref 6, rhwng 10.00 a 12.00 o'r gloch. Susan sydd wedi trefnu hwn fel rhan o'i gwaith gyda Chynllun Efe. Cyfle fydd hwn i ni allu croesawu teuluoedd plant bach i'r capel mewn sesiwn o chwarae anffurfiol.

Dymuno'n dda

Dymunwn yn dda i'r holl bobl ifanc o eglwysi'r Ofalaeth a fydd yn cychwyn eu cyfnod yn y coleg yr wythnos hon neu'r wythnos nesaf.

Coffad

Mrs Hannah Jones

Bu farw Mrs Hannah Jones, Tawel Lan, 2 Ffordd Padarn, Llanberis yn Ysbyty Gwynedd ar Orffennaf 2, yn 94 mlwydd oed. Cynhaliwyd ei hangladd yn Capel Coch a Mynwnent Nant Peris ddydd Gwener, Gorffennaf 13 dan arweiniad y

Gweinidog. Mrs Bethan Holding oedd yr organydd.

Roedd fy nghysylltiad â Mrs Hannah Jones yn mynd nôl yn bell iawn gan mai hi a'i phriod Eurwyn oedd ein cymdoges drws nesaf. Roeddem hefyd yn mynd i'r un capel, Nant Padarn. A phan euthum yn weinidog i Abersoch, yr oeddwn yn cychwyn fy ngweinidogaeth yn y pentref yr oedd hi wedi ei magu ynddo. Er ei bod erbyn hynny wedi byw yn Llanberis ers blynnyddoedd roedd yn dal i adnabod amryw o bobl yn Abersoch a byddai'n hoff iawn o sôn am 'Rabar' a'i bobl bob tro y gwelwn hi wedyn.

Daeth i fyw yn Llanberis wedi iddi hi ac Eurwyn briodi, a chartrefu yn ei gartref ef. Yr oedd yn arbennig o ddawnus gyda gwaith crosio, a threuliai oriau lawer am flynyddoedd yn gwneud dilladau o bob math. Bu'n ffyddlon yng nghapel Nant Padarn, lle'r oedd ei phriod yn ddiagon am ysgrifennydd. Roedd y ddau ohonynt yn mwynhau'r gwyliau ar fordeithiau. Roedd colli ei phriod yn haf 1999 yn ergyd drom iddi, ond roedd cwmni a chefnogaeth ei theulu ei hun a'i deulu ef yn gymorth iddi.

Erbyn 2003 roedd Nant Padarn wedi bod yn cydaddoli yn Capel Coch ers peth amser, a phenderfynwyd uno'r oedfaon yn Capel Coch yn barhaol. Yn y cyfnod hwnnw roedd icchyd Hannah yn ddigon da iddi fedru dod i'r oedfaon. Yn fuan wedyn, fodd bynnag, aeth yn fwy caeth i'w chartref fel na allai ddod i'r oedfa. Gyda chefnogaeth teulu a chymdogion arhosodd yn ei chartref hyd at y diwedd bron, a chafodd ofal dros y misoedd diwethaf yng Nghartref Plas Pengwaith yn Llanberis. Cydymdeimlwn o'r newydd â'i theulu yn eu colled.

CIC

Bydd CIC yn Capel Coch nos Wener nesaf, Medi 28 am 7.00 o'r gloch.